# Adroddiad Blynyddol 2019/20

# Cyng. Edgar W Owen

# Plaid Cymru

# Ward Waunfawr



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

Gweler y ddolen i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

## Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- Parhau i gyd-weithio gyda'r Cynghorau Cymuned yn lleol i sicrhau gwarchod buddiannau'r gymuned, yn enwedig dros y cyfnod clo yn ddiweddar.
- Gweithredu fel Cadeirydd i Ganolfan Waunfawr sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau lleol
- Rwyf wedi delio â sawl mater dros fy etholwyr yn ystod y flwyddyn, ac wedi eu cefnogi i ddatrys problemau gydag addysg, tai, cynllunio, iechyd ayb.
- Gweithio ar drosglwyddo cyfrifoldeb am gae pob tywydd Waunfawr i Gyngor Cymuned Waunfawr
- Parhau i gydweithio gydag asiantaethau i geisio datrys problemau llifogydd.

## Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

Fe gefais y fraint, y flwyddyn hon, o gael fy ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd, a bûm yn cynrychioli'r Cyngor mewn sawl gwahanol ddigwyddiad, seremoni, a gweithgareddau eraill, tu fewn a thu allan i'r Sir yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd y Cyngor llawn. Rwyf hefyd yn gwasanaethu ar y sefydliadau canlynol:

- Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – (yn cynrychioli Cyngor Gwynedd)
- Aelod o Banel Heddlu Gogledd Cymru – (yn cynrychioli Cyngor Gwynedd)

- Aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Waunfawr – (yn cynrychioli Cyngor Gwynedd)
- Aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Brynrefail – (yn cynrychioli Cyngor Gwynedd)
- Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Canolfan Waunfawr
- Mynychu Cyfarfodydd Cyngor Cymuned Waunfawr, Betws Garmon a Rhyd Ddu – (fel aelod lleol ar Gyngor Gwynedd)

| | |
|---|---|
| Trwyddedu | 07/10/2019 |
| Hybu'r Gymraeg - Rôl i bawb | 18/09/2019 |
| Cynllun Datblygu Lleol (Gwynedd ac Ynys Môn) | 16/09/2019 |